

## Fel hyn yr oedden ni'n gweld pethau!

Anodd i ni na welodd Ryfel Byd erioed yw dychmygu'r poen meddwl, y galar, y dolurio nac effaith colledion niferus ar fröydd ac ar gapeli Cymru. Ac wrth edrych ar ymateb gohebwr y Goleuad yn yn y rhifyn cyfatebol, gan mlynedd yn ôl, ar ddiwedd y Rhyfel Mawr, sylwn nad oes dim ymfrost jingoistaidd na chlodfori trin y cledd. Dim ond galar am y colledion a diolchgarwch bod yr ymladd drosodd.

### 'HEDDWCH

Anodd iawn ydyw sylweddoli cyfnewidiad mawr y dyddiau diweddfaf. Y mae llawenydd ar bob wyneb, diolchgarwch dwfn yng nghalonau llawer, ond y mae'r fron yn rhy lawn i'r genau lefaru a'r meddwl hwyrach wedi ei syfrdanu ormod i afael yng ngwir ystyr yr hyn sydd wedi digwydd. Y mae'r rhyfel drosodd, y mae'r fuddugoliaeth yn llwyrach nag y beiddiodd fawr neb obeithio. Gall ond ddywedwyd cymaint â hyn, ond prin y gallwn ddywedwyd mwy, er fod meddyliau a theimladau yn rhuthro arnom fel llifeiriant cadarn. Y mae'r digwyddiadau'n rhy fawr, y cyfwng yn rhy aruthrol. Heddiw y daeth y newydd yma; bûm yn disgwyl amdano, a'm clust wrth y teliffon hyd oriau man y bore, ond ni ddaeth y pryd hynny. Yn awr ac yn y man deuai cenadwri oddi wrth rywun adnabyddus ac anweledig yn y pellter fod rhyw ddyrswch yn rhywle, na ddeuai'r newydd am oriau, efallai ddiwrnod arall. Awgrymodd rhywun – nid oes neb yn edrych ar ochr oleu pethau tuag

un o'r gloch y bore – fod y gelyn wedi gwrthod y telerau ac y byddai'r ymladd yn parhau. Sylweddolwyd uchter y gobai yn yr ias oer a ddilynodd yr awgryn. Ond yr oedd ychydig ystyriaeth yn peri i ni weled fod mwy o sail i obaiith nag i ofn, ac aethom i orffwys gan gredu y byddai popeth yn iawn. Pan aethum i'r dref yn y bore, yr oedd y baneri allan a'r bobl oll fel pe wedi rhoddi gwaith heibio am y dydd, y plant yn cerdded yr heolydd dan ganu. Yr oedd y newydd wedi cyrhaedd, yr oedd y telerau wedi eu harwyddo; yr oedd y rhyfel mawr drosodd. Ymhlith y plant, er hynny, yn unig yr oedd y gwaeddi a'r canu. Tawel a thawedog i raddau, oedd y rhan fwyaf o bobl. Dywedodd un gŵr a gyfarfyddais fod yn wahanol iawn i'r diwrnod pan gyhoeddwyd y Newydd am deryn rhyfel Deheudir Affrica. Yr adeg honno colodd y wlad ei phen; heddyw, fel y dywedais y mae llawenydd dwfn a diolchgarwch difesur, ond nid oes fawr o waeddi. Y mae'r rhyfel wedi costio gormod, a bu'r aberth yn rhy fawr. Y mae'r wlad wedi difrifoli.'

## Thomas Charles yn croesawu'r Sasiwn i'r Bala

Ar y diwrnod poethaf ym mis Hydref ers 2011 daeth cynrychiolaeth o weinidogion a Blaenoriaid y saith Henaduriaeth sy'n gwneud i'fyny Cymdeithasfa'r Gogledd ynghyd ar gyfer Sasiwn Undydd a gynhaliwyd eleni yng Nghapel Tegid a Llanfor yn Y Bala.

Roedd Thomas Charles yn sgleinio ar ôl cael ei lanhau yn barod ar gyfer ein croesawu. Yr Henaduriaeth oedd wedi talu am hyn. Ond roedd llawer ohonon yn teimlo mai'r Cyfundeb yn gyffredinol ddylia fod yn talu am ddiogelu cyflwr cofeb sy'n drysor cenedlaethol sy'n denu ymwelwyr o bell ac agos i'w weld.

Â phawb yn cymdeithasu yn braf dros banded o de neu goffi a oedd wedi ei baratoi gan flaenoresau Capel Tegid, cawsom ein sobri gan

lais awdurdodol yr ysgrifennydd (Y Parch Marcus Wyn Robinson) yn ein galw i fynd i gyfeiriad y capel er mwyn i weithgareddau'r dydd gael dechrau yn brydlon. Roedd y cyfan o dan lywyddiaeth ein Llywydd anrwyd y Parch Olwen Williams, Tudweiliog.

Ar ôl galw enwau'r cynrychiolwyr a chroesawu ein cyfeillion o'r De a'r Dwyrain etholwyd dau berson i swyddi o fewn y Cymdeithasfa. Etholwyd Mrs Meinir Lloyd Jones, Penrhyndeudraeth i fod yn ysgrifennydd Cyfarfod y Blaenoriaid, a'r Parch Eric Greene i fod yn Ystadegydd.


Trafodwyd cenadwriaau a ddaeth o'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â phwysleisio 'polisi'r' enwad (parhad ar dudalen 2)



Parch Olwen Williams Llywydd y Gymdeithasfa

# Canmlwyddiant y Rhyfel Mawr

Pan oeddwn i'n blentyn cofiaf ddarganfod medalau fy nhaid o'r Rhyfel Byd Cyntaf a deffro'r dychymyg am ba fath o brofiadau y cafodd yno. Ar y Sadwrn cyntaf ym mis Hydref eleni cefais y profiad o weld teulu cyfan y 'Tudors' yn lansio llyfr eu tad, taid, a hen daid wrth iddynt ddod â dyddiaduron y diweddar Parchedig Stephen Owen Tudor pan yn filwr ifanc yn 1918 ac 1919 i sylw'r cyhoedd ('Dyhead am Heddwch'. Cyhoeddwyd gan Y Lolfa. ISBN 978-1-78461-608-3. Pris £9.99).



Tachwedd 2016, ac ni chafodd ei ryddhau o'r fyddin tan Ebrill 1919. Ni allwn ond dychmygu be oedd paratoi i wynebu'r dŵch o fod yng nghanol y rhyfel. Dyma ddyfyniad o'i ddyddiadur am 20 Ionawr 2018: 'Yr wyf mewn dyffryn du, ac o fy mlaen mae 'y mynyddoedd tywyll', ac yr wyf yn ofni yn fynych taro fy nhroed wrthynt. Mae fy nghlustiau yn merwino gan drwst cerbydau aneirif yn prysuro ar garlam tua dinistr, ac mae y 'llais

*dwyfol tawel distaw' wedi mynd o'm clyw.'*

Cywir iawn i ni gyd fyfyrion ar y profiadau ddaeth i ran cenhedlaeth o Gymry wrth iddynt gael eu gorfodi i ymladd fel rhan o'r lluoedd arfog. Fe adawodd Stephen O. Tudor fwynder Maldwyn i ymuno gyda'r Gwarchodlu Cymreig ar ddiwedd

Rhaid eich annog i ddarllen ymhellach am ei brofiadau sydd yn cael eu disgrifio yn gamus ganddo. Ar yr 11eg o Dachwedd 1918 mae'r geiriau "Cad-oediad Derfydd yr Ymladd a'r saethu heddyw am unarddeg o'r gloch".

Hawdd i ni anghofio'r ymdrech oedd yn dilyn gyda gorymdaith fuddugoliaethus o 198 milltir! Heb sôn am yr ymdrech i gyrraedd adref.

Roedd Stephen O. Tudor a llu cyffelyb yn bobl oedd wedi hen flino ar ffolineb dinistriol y rhyfel ond yn benderfynol o wneud eu dyletswydd nes daeth y cyfle i adeiladu bywyd newydd. A'i ffydd wedi'i gynnal trwy brofiadau ffyrnig fe symudodd ymlaen i ennill Gradd Anrhydedd mewn Athroniaeth yn Aberystwyth, a Diwinyddiaeth yn Rhydychen, gydag astudiaethau pellach yn Efrog Newydd. Ordeiniwyd ef yn Sasiwn Llandudno yn 1927 a bu'n weinidog yn y Gaerwen, Tabernacl, Porthmadog ac o 1935 hyd at 1962 yn Moriah, Caernarfon. Pan dorodd yr ail Ryfel Byd allan yn 1939, oherwydd ei argyhoeddiad a'i deimladau cryfion ynghylch yr angen i fugeilio ieuencid ei wlad fe gytunodd blaenoriaid Moriah i ryddhau'r Gweinidog er mwyn iddo gynnig ei hun yn Gaplan i weinidogaethu i'r milwyr drwy holl gyfnod y rhyfel.

Y Parchedig Stephen O Tudor fedyddiodd fi ac ni feddyliais am ei gefndir fel caplan nes i minnau gyrraedd yr un swyddogaeth yn y Llynges Frenhinol. Ac wrth eistedd ar gyfer tynnu llun swyddogol ohonof cofiais fod llun cyffelyb o fy nghyn-weinidog yn ystafell y blaenoriaid yn Moriah gynt!

Wrth edrych yn ôl tros ganrif a welodd cymaint o wallgofrwydd rhyfel, da cofio am gymaint o'n gweinidogion, er iddynt wrthwynebu'r ffolineb, a gafodd nerth a'r alwedigaeth, oherwydd eu profiad, i fugeilio eu cyd-Gymry yng nghanol eu dioddefaint.

Dyma ddyfyniad a ddarganfuwyd yn nyddiaduron Stephen O Tudor:

*'Dan gysgod gwych y pren  
Sy' a'i frigau uwch y nen,  
Trig f'enaid byw,  
Er gelynyon rif y gwllith,  
A sŵn y stormydd chwith,  
Mi lechaf tano byth,  
Fy noddfa yw.'*

**Parch Marcus Wyn Robinson**

## Thomas Charles yn croesawu'r Sasiwn i'r Bala (parhad)

gyda golwg ar gydraddoldeb gwŷr a gwragedd yn holl fywyd yr eglwys. Roedd hynny hefyd yn cynnwys ordeiniad i'r weinidogaeth. Trafodwyd hefyd cael caniatâd i rannu adeilad Seion, Glynceiriog (Bedyddwyr). Yn ystod cyfnod o ddwy flynedd, fe fydd pum capel yn yr ardal wedi ymuno i gyd-addoli – sef Saron, Nantyr; Soar. Glyn Ceiriog a Weston Rhyn (E.B.C.) ac Aion, Dolywern a Seion (Bedyddwyr).

Trafodwyd materion a ddaeth i lawr o'r Gymanfa Gyffredinol yn Wrecsam. Nodwyd bod angen sicrhau bod ein holl Eglwysi yn anfon cynrychiolwyr i hyfforddiant ar ddiogelu data. Pwysleiswyd yr angen i gydymffurfio â pholisi diogelu pobl fregus (cafwyd gair ar hyn gan Y Parch M P Morris). Rhoddwyd ystyriaeth i nifer y cynrychiolwyr i'r Sasiwn yn ôl aelodaeth y gwahanol Henaduriaethau. A nodwyd bod angen i benodi rhai eglwysi o fewn ein henaduriaethau i fod yn ganolfannau ar gyfer ein cenhadaeth i'r dyfodol. Gwahoddwyd ein hymateb i faterion fel, a ddylid caniatáu i gapeli wneud ceisiadau i Gronfa Treftadaeth y Loteri? Ystyriwyd hefyd y priodoldeb o gael un cyfreithiwr i'r Cyfundeb i gyd. Roedd y materion hyn i gyd i gael eu trafod gan yr henaduriaethau cyn y Sasiwn nesaf.

Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Y Parch Meirion Morris, a gan Harri Hughes, Y Rhyf, ar ran Pwyllgor Adnoddau ac Eiddo, Dr. Elwyn Richards ar ran

Pwyllgor Gweinidogaethau, a Trefor Jones, Yr Wyddgrug ar ran Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas.

Roedd dau bryd bwyd ardderchog yn ystod y dydd wedi eu paratoi gan Gwmni Arlwyio Nia Cyfnod, y cyntaf yn cael ei roi gan yr henaduriaeth a'r llall gan Gapel Tegid. Rhwng y ddau bryd, cawsom weddill o adroddiadau pwyllgorau a gwahoddiad gan Miss Jane Richards i'r Gymdeithasfa nesaf i gyfarfod yn Llanfairpwll ym mis Ebrill 2019. Wedyn fe aethom ymlaen i goffáu'r gweinidogion a'r blaenoriaid a oedd wedi marw ers y Sasiwn diwethaf a chafwyd gweddi berthnasol gan y Parch Carwyn Siddall (a oedd hefyd yr organydd i ni am y dydd). Cafwyd anerchiad ar y Cyfamod gan y Parch Hywel Edwards cyn i'r Parch Olwen Williams weinyddu'r sacrament o Swper yr Arglwydd.

Daeth y gweithgareddau i ben gyda'r Te Croeso am bedwar o'r gloch a chafwyd geiriau priodol gan y Parch Evan Morgan, Caerdydd ar ran Sasiwn y De a Mrs. Ruth Wynn o Gilgwri ar ran Sasiwn y Dwyrain. Roeddem wedi cael diwrnod ddigon hamddenol gyda digon o amser a neb yn codi stem yn ormodol. Ond ar yr un pryd, roedd llawer o waith wedi ei gwblhau o dan arweiniad doeth a medrus y Parchedigion Olwen Williams a Marcus Robinson.

Wrth i ni ymadael a'r Bala, allaf glywed cofeb Thomas Charles yn dweud, 'Brysiwch yma eto i mi gael "bath" arall!!!'

**Parch Eric Greene, Y Bala**

## CALENDR Y GOLEUAD

**Henaduriaeth Môn.** Brynrefail, Dydd Mawrth, 27 Tachwedd, am 2 o'r gloch. Bydd Pwyllgor Gwaith yr Henaduriaeth prynhawn Mercher, 21 Tachwedd, am 2 o'r gloch yn Lôn y Felin, Llangefni.

**Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain.** Tachwedd 28ain ym Methesda'r Wyddgrug. 4.30- Oedfa Gymun: Eisteddiad 7.00. Pwyllgor Gwaith ym Methesda, Tachwedd 14eg am 7.15.